

Edexcel GCE

**Technoleg Gwybodaeth a
Chyfathrebu Gymhwysol**
Uned 7: Defnyddio Meddalwedd Cronfa Ddata
Ionawr 2011

Senario

Cyfeirnod y Papur

6957/01

Dylid dosbarthu'r senario hwn i ymgeiswyr o leiaf dair wythnos
waith cyn yr arholiad.
Sylwer: **Nid** oes ffeiliau ymarfer ar gyfer yr arholiad hwn.

Dylai'r senario hwn gael ei ddefnyddio at ddiben paratoi ymgeiswyr ar gyfer yr
arholiad. **Ni chaniateir** mynd â'r copi hwn i mewn i'r arholiad. Bydd y wybodaeth
sydd yn y senario yn cael ei chynnwys yn y papur arholiad.

Mae mwy o fanylion i'w cael yn y Cyfarwyddiadau ar gyfer Cynnal Arholiadau (*ICE*),
sydd ar gael o wefan Edexcel ar gyfer y cymhwyster hwn.

**Ni fydd Edexcel yn derbyn unrhyw gais am ystyriaeth arbennig os rhoddir y
senario anghywir i ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad y maent yn ei sefyll.**

Trowch y dudalen ►

W39578A

©2011 Edexcel Limited.

1/



edexcel 
advancing learning, changing lives

Raptshia

Roedd Roderic Maine yn ystyried mai ef oedd 'y' dyn am gyflawni'r sgorau uchaf fyth wrth ddefnyddio unrhyw fath o gonsol gemau.

Ar ôl ychydig wythnosau o astudio yn y chweched dosbarth, sylweddolodd Roderic fod ganddo broblem. Roedd e'n treulio mwy o amser nag erioed o'r blaen yn chwarae gemau. Oherwydd hyn, roedd angen mwy o arian arno i brynu digon o gemau i'w gadw'n hapus.

Penderfynodd Roderic sefydlu ei fusnes ei hun yn gwerthu gemau a chonsolau. Rhoddodd e'r enw Raptshia ar ei fusnes. Dechreuodd y busnes yn araf, ac roedd yn gwerthu'n bennaf i'w ffrindiau yn yr ysgol. Yna, sefydlodd ef wefan i hysbysebu ei nwyddau. Yn raddol, cafodd Roderic mwy o archebion o bellach i ffwrdd a dechreuodd y busnes dyfu. Ar hyn o bryd, mae archebion yn cyrraedd dros y ffôn, drwy'r post neu ar ffurf ymholiadau mewn negeseuon e-bost.

Yn fuan iawn, fe wnaeth Roderic golli gafael ar beth roedd e'n ei werthu ac i bwy roedd e'n ei werthu. Dywedodd ei ffrind, Antonia, fod angen system reoli cronfa ddata arno a dyma pam mae eich angen chi. Rydych chi'n mynd i adeiladu **prototeip** o system gronfa ddata a fydd yn dangos i Roderic rai o'r pethau da y gall cronfa ddata eu gwneud. Efallai y bydd y system yn cael ei hymestyn yn ddiweddarach i fod yn system sy'n gyfan gwbl weithredol (*fully functional*). Byddai'r system hon yn cael ei seilio ar eich gwerthusiad o'r prototeip a'ch argymhellion am swyddogaethau eraill (*further functionality*).

Mae Antonia wedi llwyddo i gael y rhestr ganlynol o dasgau y mae'n rhaid i brototeip y gronfa ddata eu cyflawni, gan Roderic.

1. **Ychwanegu Archebion Newydd**, sy'n cynnwys:

- dewis cwsmer a chynnyrch
- cofnodi'r nifer sydd ei angen o'r cynnyrch
- rhoi dyddiad yr archeb yn awtomatig
- pennu cyfanswm cost yr archeb
- cynhyrchu rhif archeb dilyniannol newydd, sydd bob amser yn dechrau gydag ORD
- cadw manylion yr archeb mewn man addas
- lleihau lefelau stoc
- rhoi neges i'r defnyddiwr fel ei fod yn gwybod beth sy'n digwydd.

2. **Ychwanegu Cwsmeriaid Newydd**, sy'n cynnwys:

- ychwanegu manylion y cwsmer gan sicrhau bod y cod post yn bresennol
- cynhyrchu rhif adnabod (*ID*) dilyniannol newydd i'r cwsmer
- cadw manylion y cwsmer mewn man addas
- rhoi neges i'r defnyddiwr fel ei fod yn gwybod beth sy'n digwydd.

3. **Cynhyrchu Gwiriadau Stoc** – Allbrint o'r cynhyrchion y mae angen i Roderic eu harchebu gan gynnwys manylion y cyflenwr, sawl un o bob cynnyrch a chostau.

Bydd angen i'r allbrint edrych yn broffesiynol a bod yn hawdd ei ddarllen.

Mae Roderic bob amser yn gosod nifer ailarchebu i'w gynhyrchion fel ei fod yn gwybod sawl un o bob cynnyrch i'w archebu pan fydd y stociau'n mynd yn isel. Mae hyn rhwng 3 a 20 ar hyn o bryd.